Canllawiau i Gyrff Dyfarnu ar Amod D9: Cymwysterau cyfrwng Cymraeg

Awst 2023

Cynnwys

Cefndir 1

1. Cyflwyniad 2

2. Canllawiau ar Amod D9 3

Amodau D9.1-D9.2: Argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg 3

Amodau D9.3-D9.4: Cyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg 7

Amodau D9.5-D9.7: Hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad iddynt 11

Amodau D9.8-D9.9: Sefydlu trefniadau i sicrhau cydymffurfiad â'n telerau a'n gofynion cysylltiedig 19

3. Gwybodaeth, Dolenni ac Adnoddau defnyddiol 20

Atodiad A – Templedi Enghreifftiol: Datganiadau Polisi 24

Atodiad B – Templed Enghreifftiol: Holiadur Rhyngweithio Canolfan 27

Cefndir

Rydyn ni'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Rydyn ni'n rheoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gennym i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau i Ddysgwyr yng Nghymru.

Mae pob corff dyfarnu cydnabyddedig yn ddarostyngedig i'n rheolau, gan gynnwys y rhai a nodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol.

Rhaid i gyrff dyfarnu roi sylw dyledus i'r canllawiau hyn fel sy'n ofynnol gan **Amodau B7 a D5** o'r Amodau Safonol.

Hanes y Fersiwn

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn yn Awst 2023 i gefnogi cyrff dyfarnu i gydymffurfio'n barhaus ag Amod D9 ein Hamodau Cydnabod Safonol a gofynion cysylltiedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth ar y ddogfen ganllaw hon, anfonwch e-bost at y Tîm Polisi Rheoleiddio ar polisi@cymwysterau.cymru

Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn **Saesneg**.

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Amod D9 o'n Hamodau Cydnabod Safonol yn ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mae'r Amod hwn yn rhoi darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- argaeledd Cymwysterau a Reoleiddir yn Gymraeg;
- cyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- hyrwyddo a hwyluso argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg, a
- sefydlu trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â'n rheolau

1.2. Rydyn ni'n cydnabod bod amrywiaeth o ddulliau y gallwch chi, fel cyrff dyfarnu, eu dilyn i gydymffurfio â'n rheolau. Rydyn ni hefyd yn credu'n gryf mai chi sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa weithgareddau hyrwyddo fydd fwyaf effeithiol mewn perthynas â'u cymwysterau, a'r Canolfannau rydych chi'n gweithio gyda nhw.

1.3. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i'ch cefnogi i gydymffurfio ag Amod D9.

1.4. Gall ein canllaw cyhoeddedig ar gyfer cyrff dyfarnu ar ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd eich helpu i gydymffurfio â'n rheolau, gan gynnwys yr Amodau Safonol canlynol:

Amod		
G2	**Iaith asesu**	G2.1 sicrhau bod pob Dysgwr sy'n dilyn un o'ch cymwysterau yng Nghymru yn cael eu hasesu yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg
		Mae G2.4 yn sicrhau bod rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod asesiadau mewn ieithoedd gwahanol yn sicrhau bod lefel yr her yn gyson i Ddysgwyr.
G3	**Defnyddio iaith a deunyddiau ysgogol**	Mae G3 yn sicrhau bod yn rhaid i'r iaith fod yn briodol, yn glir ac yn hawdd ei deall a dylai alluogi Dysgwyr i ddangos lefel eu cyflawniad.
E6	**Cyflwyno cymwysterau i QiW**	Mae E6 yn sicrhau bod gwybodaeth am eich cymwysterau sydd wedi'u cynnwys ar gronfa ddata QiW yn gywir ac yn gyfredol - gan gynnwys manylion am gyfrwng iaith y cymwysterau.

2. Canllawiau ar Amod D9

2.1. Rydyn ni'n nodi isod ein canllawiau at ddibenion Amod D9.9(a), ac mewn perthynas â'r canlynol:

- argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg (Amodau D9.1-D9.2);
- cyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg (Amodau D9.3-D9.4),
- hyrwyddo a hwyluso'r cymwysterau hynny (Amodau D9.5-7), a
- sefydlu trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â'n rheolau (Amodau D9.8-9)

Amodau D9.1-D9.2: Argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg

Beth yw'r Amodau a'r Gofynion?

2.2. Mae Amod D9 yn cyfeirio at argaeledd cymwysterau Cymeradwy a Dynodedig. Cymwysterau Cymeradwy, Dynodedig a Rheoleiddiedig Eraill yw'r tri chategori o gymwysterau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Am fwy o fanylion am y categorïau hyn, gweler ein Fframwaith a Dull Rheoleiddio.

2.3. Ceir trosolwg o'r Amodau a'r gofynion sy'n ymwneud ag argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg isod:

Amodau	Gofynion
Mae **Amod D9.1** yn rhoi effaith i'n gofyniad presennol, a nodwyd yn flaenorol yn ein Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg, bod yn rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod cymhwyster Cymeradwy ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.	• Wrth gyflwyno eich Cymwysterau Rheoleiddiedig i QiW, rhaid i chi gynnwys gwybodaeth glir a chywir am yr iaith (ieithoedd) y mae'r cymhwyster ar gael ynddynt (Cymraeg yn unig/Saesneg yn unig/Cymraeg a Saesneg). • Pan nodir bod Cymhwyster Rheoleiddiedig ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i chi gadarnhau a yw'r cymhwyster: ○ Ar gael yn llawn yn Gymraeg, neu ○ Ar gael yn rhannol yn Gymraeg. • Pan fydd cymhwyster ar gael yn llawn yn Gymraeg, rydyn ni'n mynnu bod y deunyddiau ategol canlynol ar gael yn Gymraeg: ○ Y fanyleb ar gyfer y cymhwyster, gan gynnwys unrhyw derminoleg berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster; ○ Yr holl ddeunyddiau asesu i'w cwblhau gan y Dysgwr; ○ Deunyddiau asesu enghreifftiol[1], lle bo hynny'n berthnasol; ac ○ Unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n orfodol i'r Dysgwr gael cyfle i ennill y cymhwyster.
Mae **Amod D9.2** yn rhoi effaith i'n penderfyniad polisi i ail-lunio'r cynnig cymhwyster 14-16, ac mae'n ei wneud yn ofynnol y bydd yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly, o fis Medi 2027, bydd angen i gymwysterau Cymeradwy a Dynodedig ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, efallai y bydd cyrff dyfarnu am sicrhau bod y cymwysterau hyn ar gael yn Gymraeg cyn y dyddiad hwn.	

[1] Cyfeirir at ddeunyddiau asesu enghreifftiol hefyd fel deunyddiau asesu sampl o fewn y canllawiau hyn.

Mae ein Polisi Dynodi, yn nodi'r materion rydyn ni'n debygol o'u hystyried wrth benderfynu pa un ai i ddynodi ffurf ar gymhwyster, wrth benderfynu ar y cyfnod y mae dynodiad o'r fath i gael effaith ar ei gyfer ac wrth benderfynu pa un ai i ddirymu dynodiad o'r fath. Efallai y bydd cyrff dyfarnu hefyd am gyfeirio at ein Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau. Rydym yn dal i ystyried pa oblygiadau y caiff ein gweithgarwch diwygio Cymwys ar gyfer y Dyfodol ar ein dull cyffredinol o ddynodi cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, ac a fydd amgylchiadau cyfyngedig pan fyddai angen inni gymhwyso eithriadau i'n hegwyddorion arweiniol.[2] Rydym hefyd yn gwneud rhywfaint o waith i alluogi'r newid i'r cynnig newydd erbyn mis Medi 2027. Byddwn yn cadarnhau ein safbwynt ac yn cyhoeddi Polisi Dynodi diwygiedig erbyn diwedd 2023.	• Pan fydd cymhwyster ar gael yn rhannol yn Gymraeg, rhaid i chi sicrhau bod y deunyddiau ategol a restrir uchod ar gael ar gyfer pob uned a/neu Gydran sydd ar gael yn Gymraeg. • Ni ddylai Dysgwyr sy'n ymgymryd â chymhwyster yn y Gymraeg fod dan anfantais o'i gymharu â Dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster cyfatebol yn Saesneg.

Sut ydw i'n cyflwyno gwybodaeth am gyfrwng iaith cymhwyster i QiW?

Cronfa Ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)

2.4. Wrth gyflwyno eich Cymwysterau Rheoleiddiedig i QiW, mae'n ofynnol:

- eich bod chi'n cynnwys gwybodaeth am yr iaith (ieithoedd) lle mae cymhwyster ar gael, yn glir ac yn gywir, a
- phan fydd cymhwyster ar gael yn Gymraeg, cadarnhau a yw hynny ar gael yn llawn neu'n rhannol.

[2] Dylai cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed:

i. ymwneud â nodau a dibenion y Cwricwlwm newydd a'i gefnogi;
ii. bod ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg, a
iii. chyfrannu at ystod gydlynol a chynhwysol o gymwysterau sy'n bodloni anghenion pob dysgwr

2.5. Mae QiW yn rhoi'r opsiwn i gyrff dyfarnu ddewis un o dri chategori wrth gyfeirio at yr iaith (ieithoedd) lle mae cymhwyster ar gael. Mae'r tri chategori fel a ganlyn:

Saesneg YN UNIG	**Saesneg - Cymraeg**	**Cymraeg YN UNIG**

Saesneg YN UNIG - cymwysterau sydd ar gael yn Saesneg yn unig.

Cymraeg YN UNIG - cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg yn unig.

Saesneg - Cymraeg - cymwysterau sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2.6. Lle nodir cymhwyster fel Saesneg - Cymraeg, gallai hyn olygu bod y cymhwyster naill ai ar gael yn llawn, neu ar gael yn rhannol, yn Gymraeg Mae QiW yn eich caniatáu i nodi a yw'r cymhwyster 'ar gael yn llawn yn Gymraeg' neu 'Ar gael yn rhannol yn Gymraeg'.



2.7. Gellir dod o hyd i Amodau Penodol sy'n ymwneud â chyflwyno cymwysterau i QiW yn **Amod E6** ein Hamodau Cydnabod Safonol.

Pa agweddau ar gymhwyster sydd angen eu darparu yn Gymraeg?

2.8. Os nodir cymhwyster ar QiW fel 'Cymraeg yn Unig' neu 'Saesneg-Cymraeg' ac 'Ar gael yn llawn yn Gymraeg', mae hyn yn golygu bod yr holl asesiadau sydd i'w cwblhau gan Ddysgwyr ar gael yn Gymraeg, a bod y deunyddiau ategol canlynol, o leiaf, ar gael yn Gymraeg.

Holl asesiadau	**Y fanyleb, gan gynnwys unrhyw derminoleg hanfodol**	**Deunyddiau asesu enghreifftiol sy'n berthnasol i'r cymhwyster neu'r uned**	**Unrhyw ddeunyddiau asesu eraill sydd eu hangen i gael y cymhwyster**

2.9. Ar gyfer cymwysterau a nodwyd ar QiW fel 'Ar gael yn rhannol yn Gymraeg', mae'n rhaid sicrhau bod y deunyddiau ategol sy'n ymwneud â **phob uned neu Gydran** sydd ar gael i Ddysgwyr yn y Gymraeg, hefyd ar gael yn yr iaith honno.

Sut alla i sicrhau nad yw Dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau yn y Gymraeg dan anfantais?

2.10. Er mwyn sicrhau nad yw Dysgwyr sy'n dilyn cymhwyster yn y Gymraeg o dan anfantais o gymharu â Dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster cyfatebol yn Saesneg, dylai gwybodaeth am gymwysterau, asesiadau a deunyddiau ategol cyfrwng Cymraeg fod ar gael yn hawdd, a'u bod yn cael gweld yn gyfwerth, gydag amlygrwydd a statws cyfartal.

2.11. Dyma rai pethau y gallech eu hystyried wrth sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael i Ddysgwyr:

- hygyrchedd y cymhwyster;
- y camau y mae'n rhaid i'r Dysgwr eu cymryd er mwyn ennill y cymhwyster;
- safon, ansawdd a chysondeb y cymhwyster a'r deunyddiau ategol;
- lleoliad ac amlygrwydd y wybodaeth am gymwysterau cyfrwng Cymraeg, a
- phryd a sut y bydd y cymhwyster ar gael i'r Dysgwr.

2.12. Am ragor o wybodaeth a chymorth ar sut i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gweler ein canllawiau ar ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Amodau D9.3-D9.4: Cyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg

Beth yw'r Amodau a'r Gofynion?

2.13. Ceir trosolwg o'r Amodau a'r gofynion sy'n ymwneud â chyhoeddi eich datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg isod:

Amodau	Gofynion
Cyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg **Amod D9.3** Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi, cynnal a chydymffurfio â datganiad polisi sy'n pennu a yw'n darparu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n bwriadu eu darparu ai peidio. **Amod D9.4** Mewn unrhyw amgylchiadau pan fo'r datganiad polisi sydd ganddo yn ei le yn datgan ei fod yn darparu, neu'n bwriadu darparu, cymhwyster yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y datganiad polisi yn ei alluogi i gydymffurfio â'i Amodau Cydnabod.	Mae'n rhaid i'ch datganiad polisi cyhoeddedig: • fod yn rhesymol hygyrch (drwy gyhoeddi ar eich gwefan), • yn agored, tryloyw, cywir a chlir i Ddefnyddwyr cymwysterau, ac • yn cael ei rannu'n uniongyrchol â Chanolfannau, • yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog lle mae cymwysterau ar gael i Ganolfannau cyfrwng Cymraeg a Chanolfannau dwyieithog, • yn esbonio'r sail y gwnaed penderfyniadau p'un ai i sicrhau bod cymwysterau ar gael yn Gymraeg ai peidio, • yn nodi pa agweddau ar gymhwyster sydd ar gael yn Gymraeg, ac • yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Sut dylai'r datganiad polisi gael ei gyhoeddi?

2.14. Gellir cynnwys y datganiad polisi mewn un ddogfen, neu fel arall.

2.15. Wrth gyhoeddi'ch datganiad polisi, efallai y byddwch am ystyried y canlynol:

- Hwyluso mynediad at fersiwn Gymraeg y datganiad polisi (lle bo hynny'n berthnasol) drwy gynnwys dolen uniongyrchol i'r fersiwn Gymraeg, neu drwy ddarparu gwybodaeth ar sut i ddod o hyd i'r ddogfen Gymraeg fel rhan o'r datganiad;
- Nodi lleoliad eich datganiad polisi ar eich gwefan, ac i ba raddau y mae eich datganiad polisi yn ddigon amlwg i Ddefnyddwyr perthnasol eich gwefan;
- Cynnwys y datganiad polisi mewn adran neu ar dudalen we benodol ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ac
- I ba raddau y gellid cyhoeddi adran, neu dudalen we o'r fath yn ddwyieithog.

2.16. Mae adran 3.3 o'n canllawiau ar ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn cynnwys canllawiau pellach ar y camau y gallech fod am eu cymryd wrth farchnata a hyrwyddo'r cynnig cymhwyster cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys lle bo'n berthnasol, y gallu i ddewis tudalennau Cymraeg eich gwefan.

Beth ddylai'r datganiad polisi gynnwys?

2.17. Bydd lefel y manylion sy'n angenrheidiol ac sy'n addas i'w cynnwys mewn datganiad polisi yn amrywio, a bydd yn dibynnu ar y graddau rydych chi fel corff dyfarnu yn sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael.

2.18. Wrth egluro ar ba sail rydych chi wedi penderfynu a ddylid sicrhau bod cymhwyster/cymwysterau ar gael yn Gymraeg, gallwch ddarparu rhesymeg gwmpasog yn eich datganiad polisi cyhoeddedig, neu fel arall, gallwch ddarparu rhagor o fanylion, lle bo'n berthnasol, sy'n ymwneud â chymwysterau unigol. Fodd bynnag, dylai'r datganiad polisi fod yn ddigon clir i Ddefnyddwyr ddeall yn rhesymol i ba raddau rydych chi'n sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael a lle gallant ddod o hyd i wybodaeth am ba gymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg. I'r perwyl hwnnw, dylai eich datganiad polisi:

- fod yn hawdd ei ddefnyddio;
- esbonio'r rhesymau dros benderfynu bod cymwysterau ar gael yn Gymraeg ai peidio;
- nodi'r ffactorau a ystyriwyd;
- cynnwys tystiolaeth glir a phenodol i gefnogi'r penderfyniad, a
- nodi canlyniad y penderfyniad (a all gynnwys nodi pa gymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg a pha rai sydd ddim ar gael yn Gymraeg).

2.19. Gweler **Atodiad A** o'r Canllawiau hyn i gael templedi enghreifftiol o ddatganiad polisi. Mae'r enghreifftiau a ddarperir yn adlewyrchu'r gwahanol gynigion cymwysterau a allai fod ar gael ar draws cyrff dyfarnu, gan amrywio o fod dim cymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael, i economi gymysg, i gynnig cymhwyster cwbl ddwyieithog. Sylwer mai canllaw yn unig ydyn nhw ac nad yw'n ofynnol i gorff eu defnyddio er mwyn cydymffurfio â'r Amodau perthnasol.

2.20. Efallai yr hoffech ofyn am farn defnyddwyr cymwysterau i helpu i lywio eich datganiad polisi cyhoeddedig. Efallai yr hoffech hefyd ystyried gwneud cysylltiad uniongyrchol â sampl gynrychioliadol o'ch Canolfannau a'u Dysgwyr.

2.21. Mae enghreifftiau o wybodaeth y gallai Defnyddwyr eich cymwysterau eu gweld o gymorth o fewn datganiad polisi cyhoeddedig yn cynnwys:

- lle mae gwybodaeth am gymwysterau cyfrwng Cymraeg i'w chael ar eich gwefan neu mewn deunyddiau hyrwyddo cyhoeddedig. Gallech gynnwys dolen o fewn eich datganiad polisi i dudalen we bwrpasol sy'n rhestru'r holl gymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Pwy yn eich sefydliad fyddai'r pwynt(iau) cyswllt ar gyfer ymholiadau am gymwysterau cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn fod yn unigolyn neu'n dîm;
- Pryd y gallant ddisgwyl derbyn gwybodaeth am gymwysterau cyfrwng Cymraeg. Gall hyn gynnwys rhyngweithio â chynrychiolwyr cyrff dyfarnu neu hyrwyddwyr iaith Gymraeg penodedig.
- Pa ddeunyddiau ategol sydd ar gael yn Gymraeg, ar gyfer cymwysterau sydd ar gael yn llawn ac yn rhannol yn Gymraeg. Efallai yr hoffech gyfeirio at ein gofynion ar gyfer deunyddiau ategol yn eich datganiad polisi i roi cyngor ar ba ddeunyddiau ategol sydd ar gael.
- Pryd y gall Defnyddwyr eich cymwysterau ddisgwyl derbyn diweddariadau ar gymwysterau newydd yr ydych yn bwriadu eu darparu, neu gymwysterau yr ydych yn bwriadu eu tynnu'n ôl.
- Gwybodaeth am broses cyflwyno unrhyw gymwysterau cyfrwng Cymraeg newydd rydych chi'n bwriadu eu darparu, gan gynnwys dyddiadau ar gyfer addysgu a chofrestru am y tro cyntaf.
- Gwybodaeth am unrhyw gymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd i gael eu tynnu'n ôl, gan gynnwys dyddiadau gorffen cofrestru ac ardystio ac unrhyw gymwysterau sy'n eu disodli, lle bo'n briodol.
- Sut a phryd y mae eich sefydliad yn bwriadu ymgysylltu â Chanolfannau i nodi'r galw am gymwysterau cyfrwng Cymraeg.
- Pa gynlluniau sydd gennych, os o gwbl, ar gyfer ehangu darpariaeth cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac amserlenni cysylltiedig.
- unrhyw newidiadau a wneir i'w ddatganiad polisi ar argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Beth os ydw i eisoes yn gweithredu mewn ffordd gwbl ddwyieithog?

2.22. Mater i'r corff dyfarnu yw bodloni ei hun bod ei ddull yn bodloni'r rhwymedigaethau a nodir yn Amod D9 a'i ofynion cysylltiedig.

2.23. Os ydych eisoes wedi cyhoeddi datganiad polisi, a/neu os oes gennych strategaeth farchnata eisoes ar waith, rhaid i'r rhain fodloni'r rhwymedigaethau a nodir yn Amod D9 a'i ofynion cysylltiedig. Os yw eich datganiad polisi yn parhau'n gywir ac yn gyfredol ac mae eich strategaeth farchnata yn parhau i fod yn effeithiol wrth hyrwyddo a hwyluso mynediad i'ch cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ni fyddai angen i chi gyhoeddi datganiad polisi ar wahân na datblygu strategaethau marchnata newydd.

Beth ddylid ei ystyried wrth adolygu'r datganiad polisi?

2.24. Wrth adolygu eich datganiad polisi, efallai yr hoffech ystyried y ffactorau canlynol:
- Sut mae'r datganiad polisi wedi'i weithredu, ac i ba raddau y cydymffurfiwyd ag ef?
- A yw'r ddogfen yn dal i fod yn addas i'r diben, gan gynnwys ei gweithredu a'i chymhwyso'n ymarferol?
- A yw'r ddogfen yn dal yn berthnasol ac yn gyfredol?

- Pa adborth ydych chi wedi'i gael gan Ddefnyddwyr eich cymwysterau ar y datganiad polisi hwn a'i ddefnydd ers iddo gael ei gyhoeddi?
- Beth sydd wedi newid ers ei gyhoeddi a pha ddiweddariadau, os o gwbl, sydd eu hangen?
- I ba raddau y mae eich gweithdrefnau gweithredol wedi gwella yn gysylltiedig â darparu cymwysterau yn y Gymraeg, lle bo hynny'n berthnasol?

Amodau D9.5-D9.7: Hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad iddynt

Beth yw'r Amodau a'r Gofynion?

2.25. Darperir trosolwg o'r Amodau a gofynion yn ymwneud â hyrwyddo a hwyluso Cymwysterau cyfrwng Cymraeg isod:

Amodau	Gofynion
Hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad iddynt **Amod D9.5** Pan fydd corff dyfarnu yn darparu, neu'n bwriadu darparu, cymhwyster yn Gymraeg, bydd yn ofynnol iddo hyrwyddo argaeledd y cymwysterau hynny a hwyluso mynediad iddynt. **Amod D9.6** At ddibenion Amod D9.5, mae 'hyrwyddo' yn golygu unrhyw ymdrechion a wneir gan gorff dyfarnu i godi ymwybyddiaeth o argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg. **Amod D9.7** At ddibenion Amod D9.5, mae 'hwyluso' yn golygu unrhyw gamau a gymerir gan gorff dyfarnu i wella mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg.	Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd rydych chi'n eu cynhyrchu, boed ar ffurf copi caled neu'n ddigidol, sy'n cyfeirio at ffurf Saesneg y cymhwyster hefyd yn datgan bod y cymhwyster ar gael yn Gymraeg. Rhaid i chi ymgymryd â gweithgareddau blynyddol mewn perthynas â phob Canolfan, naill ai wyneb yn wyneb neu o bell. Mae'r rhain yn cynnwys: (i) codi ymwybyddiaeth o'r cymwysterau rydych chi'n eu darparu, neu'n bwriadu eu darparu, yn Gymraeg, (ii) nodi pa adnoddau cyfrwng Cymraeg a deunyddiau ategol sy'n ymwneud â'r cymwysterau hynny y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt gael eu darparu gennych chi, (iii) asesu'r galw tebygol am gymwysterau yn Gymraeg, (iv) nodi cyfleoedd i wella mynediad at eich cymwysterau yn y Gymraeg. (v) nodi, lle bo'n berthnasol ac yn briodol, gymwysterau penodol i'w blaenoriaethu ar gyfer hyrwyddo, neu gynulleidfaoedd penodol i'w targedu.

Sut ydw i'n hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac yn hwyluso mynediad iddynt?

2.26. Rydyn ni'n credu'n gryf mai chi sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa weithgareddau hyrwyddo fydd fwyaf effeithiol mewn perthynas â'u cymwysterau, a'r Canolfannau rydych chi'n gweithio gyda nhw.

2.27. Fodd bynnag, wrth hysbysebu neu hyrwyddo eich cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ac yn unol ag Amod B5.2, mae'n bwysig eich bod yn gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n debygol o'i gwneud yn glir i Ddefnyddwyr pa rannau o'r cymhwyster sydd ar gael yn Gymraeg.

2.28. Dylai unrhyw weithgareddau i'r perwyl hwnnw, gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo, nodi'n glir gymwysterau neu unedau/Cydrannau cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.29. Ni ddylid trin unrhyw wybodaeth gyhoeddedig sy'n ymwneud ag argaeledd cymhwyster cyfrwng Cymraeg yn llai ffafriol na gwybodaeth sy'n cyfeirio at y fersiwn Saesneg cyfatebol. Mae hyn yn cynnwys pryd a sut mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi, ei ddarparu, neu ei arddangos.

2.30. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o argaeledd eich cymwysterau cyfrwng Cymraeg, efallai y byddwch am ystyried y canlynol:

- cyhoeddi datganiad mewn man amlwg ar ddeunyddiau hyrwyddo neu ar eich gwefan, e.e. "Fersiwn Cymraeg ar gael";
- os yw'r ddogfen yn electronig, cynnwys dolen i'r fersiwn Gymraeg, e.e. "Defnyddiwch y fersiwn Gymraeg yma";
- darparu dangosydd yn nheitl y cymhwyster sy'n dynodi argaeledd y cymhwyster yn Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- tynnu sylw at argaeledd cymhwyster cyfrwng Cymraeg drwy ddulliau fel cyfryngau cymdeithasol neu ddeunydd hysbysebu, ac annog eu dilyn;
- defnyddio deunydd Iaith Gwaith i amlygu argaeledd cymhwyster cyfrwng Cymraeg;
- cyhoeddi a rhannu gwybodaeth am rai neu bob un o'r cymwysterau rydych chi'n eu cynnig yn Gymraeg drwy daflen wybodaeth, tudalen we, cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion ac ati;
- sicrhau bod taith dysgu'r Defnyddwyr mewn perthynas â dilyn y cymhwyster yn y Gymraeg o'r un safon ac ansawdd â'r gwasanaeth yn Saesneg, a
- sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn cael amlygrwydd, yn hawdd cael gwybod amdanynt ac yn cael eu hyrwyddo'n weithredol.

2.31. Mae'r logo 'Iaith Gwaith' a'r bathodyn swigen siarad oren, a ddatblygwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, wedi hen sefydlu ac yn gyfarwydd i Ddefnyddwyr yng Nghymru. Mae'n cael ei gydnabod yn eang fel arwydd bod gwasanaeth penodol ar gael yn y Gymraeg. Fe'i gwelir fel ffordd syml o annog defnydd o'r Gymraeg ac mae ymchwil wedi dangos pan fydd Defnyddwyr yn gweld y logo oren ei fod yn rhoi sicrwydd iddynt fod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac yn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sefydliad.

> "Y logo ydi'r ffordd hawsaf i hyrwyddo... Ma pawb yn nabod y logo"
>
> **Hyrwyddo'r defnydd o wasanaeth Cymraeg**

2.32. Efallai yr hoffech ystyried defnyddio logo Iaith Gwaith, sydd ar gael i'w lawrlwytho am ddim ar Gwefan Comisiynydd y Gymraeg.

2.33. Dyma enghraifft o ddatganiad cyfatebol y gellir ei ddefnyddio i dynnu sylw at argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg:

Mae'r cymhwyster hwn ar gael yn Gymraeg.

2.34. Mae'r materion eraill y gallech fod am eu hystyried wrth hyrwyddo argaeledd eich cymwysterau cyfrwng Cymraeg a'u hwyluso iddynt yn cynnwys:

- Cyhoeddi deunyddiau hyrwyddo a thudalennau gwe perthnasol yn ddwyieithog;
- Darparu codau cofrestru sy'n gwahaniaethu rhwng fersiynau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg o'r cymhwyster. Sylwer na ddylai cael codau mynediad ar wahân atal Dysgwyr rhag cymryd Cydrannau'r cymhwyster yn Gymraeg, yn Saesneg neu drwy ddefnyddio cyfuniad o'r ddau, a
- Chasglu data ar ddewis iaith Dysgwr ar adeg cofrestru. Gallai deall dewis iaith Dysgwr lywio eich gwaith o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar faint o Ddysgwyr a allai fod yn dymuno cynnal asesiad yn Gymraeg.

2.35. Ein Cynnig Cymraeg: Mae pecyn adnoddau Cyflwyno'r Cynnig Gweithredol yn y system gymwysterau yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddarparu'r Cynnig Gweithredol drwy ddefnyddio deunyddiau hyrwyddo a chanllaw ar hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad atynt, wrth gofrestru'r Dysgwyr.

Pa fathau o weithgareddau ddylwn i eu cynnal gyda Chanolfannau?

2.36. Gall gweithgareddau'r blynyddol gyda'r Ganolfan gael eu cynnal mewn sawl ffordd. Chi fel cyrff dyfarnu sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa weithgareddau i'w cynnal yn

flynyddol gyda'ch Canolfannau eich hun. Fodd bynnag, dylai gweithgareddau o'r fath fod yn ddigonol er mwyn eich galluogi i nodi anghenion y Dysgwyr presennol a darpar Ddysgwyr o ran y Gymraeg.

2.37. Efallai eich bod chi am ystyried a ddylai gweithgareddau blynyddol o'r fath gael eu hymgorffori yn y cytundebau sydd eisoes gennych gyda Chanolfannau yn unol ag Amodau C1 ac C2.

2.38. Wrth ymgymryd â'r gweithgareddau blynyddol hyn, efallai y byddwch am ystyried defnyddio staff sydd â gwybodaeth briodol am eich cymwysterau cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'u hargaeledd. Yr aelodau staff yma fyddai yn y sefyllfa orau i ddilyn pob ymholiad sy'n ymwneud ag argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

2.39. Efallai y bydd rhai Canolfannau rydych chi'n gweithio gyda nhw yng Nghymru, er enghraifft Colegau Addysg Bellach, yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ("Safonau")[3]. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gael gwybod y gellir cyflwyno unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir fel rhan o asesiadau neu arholiadau'r Canolfannau eu hunain yn Gymraeg, ac na ddylid trin gwaith a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir yn Saesneg.

2.40. Dylai corff dyfarnu sy'n gweithio gydag unrhyw Ganolfannau sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg roi sylw i'r ddeddfwriaeth hon a cheisio hwyluso cydymffurfiaeth y Ganolfan â'r Safonau.

2.41. Wrth gynllunio eich gweithgareddau blynyddol gyda Chanolfannau, efallai yr hoffech ystyried y canlynol:

- Cynnal cofnod wedi'i ddiweddaru o'r Canolfannau y mae gennych gytundebau â hwy, sy'n cynnwys rhyngweithiadau blynyddol â'r Ganolfan.
- Defnyddio staff cynllunio a datblygu busnes pwrpasol sy'n gyfrifol am gynllunio cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn strategol.
- Annog mwy o Ganolfannau i ddarparu mwy o'ch cymwysterau.
- Hyfforddi staff i ddelio ag ymholiadau gan Ganolfannau sy'n darparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg e.e. trafod opsiynau ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag ymateb i gwestiynau neu bryderon cyffredin gan Ganolfannau a Defnyddwyr eraill y cymwysterau.
- Darparu mecanwaith ar gyfer Canolfannau i'w galluogi i roi gwybod i chi am unrhyw Ddysgwyr sy'n dymuno dilyn cymhwyster yn Gymraeg.
- Ymgysylltu'n rheolaidd â Chanolfannau a Dysgwyr i godi ymwybyddiaeth o gymwysterau a deunyddiau ategol sydd ar gael yn Gymraeg.
- Adolygu argaeledd adnoddau a deunyddiau ategol i gefnogi Dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

[3] Safon 90 a 90A o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 - legislation.gov.uk/wsi/2017/90/schedule/1/part/1/made/welsh

- Darparu mecanwaith i Ganolfannau gofnodi a chyflwyno data ar ddewis iaith y Dysgwr.
- Ystyried pa gamau allwch chi eu cymryd i sicrhau bod data ynghylch dewis iaith yn cael ei ddarparu i'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu cymwysterau yn eich sefydliad.
- Ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am wneud cymwysterau ar gael yn Gymraeg.
- Gwerthuso'r mecanweithiau sydd ar waith i chi gael adborth a pharhau i adolygu'ch trefniadau gyda'ch Canolfannau gan ddefnyddio adborth i wella'ch gweithgareddau blynyddol a sicrhau nad yw'r rhain yn gosod beichiau diangen ar Ganolfannau.

2.42. Fel rhan o'ch gweithgareddau blynyddol gyda Chanolfannau, efallai y byddwch am roi holiadur iddynt yn ymwneud â'u hanghenion o ran cymhwyster cyfrwng Cymraeg. Darperir holiadur enghreifftiol y gallwch ei deilwra i ddiwallu eich anghenion eich hun yn **Atodiad B** o'r canllaw hwn.

2.43. Efallai y byddwch hefyd am ddefnyddio rhai o'r dulliau isod i ddeall anghenion eich Canolfannau a'i Dysgwyr yn well:

Grwpiau trafod

- Cynnull grwpiau bach o Ddefnyddwyr
- Gwahoddiad agored neu dargedu grwpiau Defnyddwyr penodol
- Sgwrs strwythuredig anffurfiol, wedi'i hwyluso gan aelod o staff
- Holi am brofiadau a barn
- Gellir defnyddio awgrymiadau neu adnoddau i ysgogi trafodaeth

Arsylwi

- Cofnodwch ymddygiad y Defnyddwyr gwasanaeth o ran dewis iaith, a pha ffactorau sy'n effeithio ar hynny.

Arolwg Defnyddwyr

- Mae llawer o sefydliadau'n ceisio barn Defnyddwyr trwy arolygon, fel arolygon ar-lein sy'n ceisio adborth cyffredinol neu adborth ar wasanaeth penodol
- Gellir defnyddio'r ymarferion hyn i gasglu gwybodaeth am arferion ac anghenion Defnyddwyr wrth gyrchu cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- Enghreifftiau o gwestiynau y gellir eu gofyn:
    - "Ydych chi'n gwybod pa rai o'n cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg?"
    - "A oes unrhyw gynnyrch neu wasanaethau yn ymwneud â'r cymwysterau hynny yr hoffech eu derbyn yn y Gymraeg?"
    - "Beth fyddai'n eich gwneud chi'n fwy tebygol o ddefnyddio ein cymwysterau cyfrwng Cymraeg?"

Sut ddylwn i dargedu cynulleidfaoedd penodol i hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg?

2.44. Bydd targedu eich gweithgarwch hyrwyddo at wahanol gynulleidfaoedd yn eich galluogi i deilwra eich negeseuon hyrwyddo ac apelio at gynulleidfa ehangach. Mae'r tabl isod yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o weithgarwch hyrwyddo y gallech eu defnyddio i dargedu cynulleidfaoedd penodol. Rydyn ni hefyd yn nodi enghreifftiau o wahanol ffyrdd y gellid defnyddio pob math o ddyrchafiad i hyrwyddo cymwysterau cyfrwng Cymraeg, neu ryngweithio â Defnyddwyr cymwysterau:

Math o hyrwyddo	Cynulleidfa darged	Natur y cyfathrebu / hyrwyddo
Gwefan	Darpar Ddefnyddwyr cymwysterau	• Tudalen we bwrpasol ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg • Adran Beth sy'n Newydd / I ddod yn fuan yn hysbysu ymwelwyr â'r wefan am gymwysterau newydd
Cyfryngau Cymdeithasol	Holl Ddefnyddwyr cymwysterau	• Yn eich galluogi i greu deunydd hyrwyddo sy'n apelio'n weledol • Casglu a dadansoddi data ar alw yn y dyfodol • Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gwahanol i dargedu gwahanol gynulleidfaoedd
E-bost	Canolfannau	• Cyfathrebu dwy ffordd â Chanolfannau • Cyfathrebu'n uniongyrchol gyda Chanolfannau Cymraeg • Cyfathrebu'n uniongyrchol â Phencampwyr y Gymraeg • Anfon holiaduron am y galw am gymwysterau cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol (Gweler Atodiad B).
Hyrwyddo uniongyrchol	Canolfannau Dysgwyr	• Trafodaethau gyda Chanolfannau a Dysgwyr yn ystod ymweliadau sicrhau ansawdd allanol arferol / gweithgareddau hyrwyddo blynyddol • Cyfathrebu rheolaidd ynghylch cymwysterau / datblygu
Digwyddiadau ymgysylltu	Canolfannau Dysgwyr	• Fforymau ymgysylltu â Chanolfannau a Dysgwyr • Digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb • Meithrin perthynas â rhanddeiliaid

2.45. Wrth gynllunio deunydd hyrwyddo wedi'u targedu, efallai y byddwch am ystyried y canlynol:

- Defnyddio eich gweithgareddau blynyddol gyda Chanolfannau i gasglu gwybodaeth am broffil eu Dysgwyr. Gallech ddefnyddio'r wybodaeth hon, ochr yn ochr â gwybodaeth sydd gennych eisoes ar eich Canolfannau, i gyhoeddi negeseuon marchnata pwrpasol am argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg i'r grwpiau a nodwyd.
- Casglu data ynghylch dewis iaith y Dysgwr ar adeg cofrestru i dargedu'ch gweithgareddau hyrwyddo at y Dysgwyr hynny sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith. Gwyddom fod rhai colegau addysg bellach yn casglu data i sefydlu pa Ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ac sydd wedi derbyn addysg Gymraeg cyn-16, ac yna'n cysylltu â'r Dysgwyr yn unigol i roi gwybod iddynt am gyfleoedd i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, yn ogystal â rhannau cyflawn o'u cwrs a/neu asesiadau yn Gymraeg.
- Cyflwyno astudiaethau achos a phrofiadau Dysgwyr yn y gorffennol sy'n dilyn eich cymwysterau cyfrwng Cymraeg, a chynnwys y rhain o fewn deunyddiau hyrwyddo,
- Dadansoddi data o weithgareddau hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth i nodi cyfleoedd i:
    - ehangu eich cynnig o gymwysterau cyfrwng Cymraeg;
    - gweithio gyda mwy o Ganolfannau Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru.

2.46. Efallai y byddwch hefyd am weithio gyda sefydliadau eraill a fydd â chyswllt uniongyrchol â chynulleidfaoedd penodol, a darparu dull dibynadwy o gyrraedd y gynulleidfa honno. Gall hyn fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer cymwysterau lle mae galw hysbys neu debygol. Er enghraifft, efallai yr hoffech ystyried gweithio gyda Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru i hyrwyddo cymwysterau amaethyddol yn Gymraeg, neu weithio gydag Adran Chwaraeon yr Urdd i hyrwyddo cymwysterau chwaraeon a hyfforddi yn y Gymraeg.

2.47. Efallai y byddwch am sefydlu llinell sylfaen a chasglu data ar nifer y Dysgwyr sydd wedi'u cofrestru i ddilyn cymhwyster yn Gymraeg cyn i chi dargedu eich gweithgaredd hyrwyddo at wahanol gynulleidfaoedd, er mwyn mesur llwyddiant gwahanol weithgareddau hyrwyddo. Un ffordd o wneud hyn fyddai:

- casglu data ar lefel y defnydd cyn yr ymyriad;
- ymyrryd e.e. hyrwyddo'r cymwysterau ar gyfryngau cymdeithasol; a
- casglu data ar lefel y defnydd ar ôl yr ymyriad.

2.48. Yn ogystal â data meintiol, gall fod yn ddefnyddiol gofyn i Ddefnyddwyr cymwysterau am adborth ansoddol am eu profiadau mewn perthynas â'r cymwysterau cyfrwng Cymraeg y byddwch yn eu darparu. Yna gellid defnyddio adborth cadarnhaol o fewn deunyddiau hyrwyddo ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

2.49. Bydd gwneud ymchwil o'r math hwn yn eich helpu i nodi ac ystyried anghenion penodol eich Dysgwyr, a'ch Canolfannau. Bydd hefyd yn eich helpu i ddeall yn well beth sy'n dylanwadu ar eu hymddygiad, mesur sut mae eu hymddygiad yn newid, a lle bo'n briodol, gwneud amrywiadau i'r ffordd yr ydych yn darparu cymwysterau cyfrwng

Cymraeg. Bydd yr holl wybodaeth hon yn werthfawr wrth i chi dargedu'ch cymwysterau cyfrwng Cymraeg i wahanol Ddefnyddwyr.

2.50. Gall mesur effaith eich gweithgareddau i hyrwyddo a hwyluso cymwysterau cyfrwng Cymraeg hefyd eich helpu i nodi cyfleoedd i ehangu eich cynnig cymhwyster cyfrwng Cymraeg a gweithio gyda mwy o Ganolfannau yng Nghymru.

Pa gymwysterau ym mha feysydd pwnc/sector ddylai gael eu blaenoriaethu ar gyfer datblygu?

2.51. Os ydych yn ceisio hwyluso gwell mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg drwy ddatblygu ystod ehangach o'ch cymwysterau yn y Gymraeg, dylech flaenoriaethu cymwysterau:

- mewn meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi mewn strategaethau cenedlaethol fel rhai y mae angen mwy o ddarpariaeth yn Gymraeg arnynt;
- mewn perthynas â lleoliadau ôl-16 a sectorau blaenoriaeth ynddynt;
- sy'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg; a
- sy'n fwy tebygol o arwain at gynnydd a/neu gyflogaeth lle ceir defnydd o'r Gymraeg.

2.52. O fewn adran 3.2 o'n Canllawiau ar gyfer cyrff dyfarnu ar ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, gallwch ddod o hyd i ganllawiau pellach ar nodi sectorau blaenoriaeth.

Amodau D9.8-D9.9: Sefydlu trefniadau i sicrhau cydymffurfiad â'n telerau a'n gofynion cysylltiedig

Beth yw'r Amodau?

Mae **Amod D9.8** yn nodi bod rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer —

(a) goruchwylio'r ffordd y mae'n cydymffurfio ag Amod D9;
(b) cyhoeddi ei ddatganiad polisi;
(c) hyrwyddo argaeledd a hwyluso mynediad i'w gymwysterau cyfrwng Cymraeg; a chyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ei wefan.

Mae **Amod D9** yn nodi bod rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, wrth sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael, ac wrth hyrwyddo'u hargaeledd a hwyluso mynediad iddynt, yn unol ag Amodau D9.1-D9.9, ei fod yn cydymffurfio ag –

(a) unrhyw ofynion, ac yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau, a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd, ac
(b) unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'u cyfleu iddo yn ysgrifenedig,

Sut ydw i'n dangos bod trefniadau digonol ar waith i gydymffurfio ag Amod D9?

2.53. Er mwyn dangos bod y trefniadau sydd gennych ar waith yn ddigonol i gydymffurfio ag Amod D9, efallai y byddwch am gofnodi'r canlynol:

- pa aelodau staff, timau a/neu adrannau sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r Amodau ynghyd ag amlinelliad o sut y gwneir hyn.
- pa aelodau o staff, timau a/neu adrannau sy'n gyfrifol am hyrwyddo a hwyluso eich cymwysterau cyfrwng Cymraeg ynghyd ag amlinelliad o sut y gwneir hyn e.e. gweithgareddau blynyddol â Chanolfannau,
- pa aelodau staff, timau a/neu adrannau sy'n gyfrifol am gynnal adolygiad o'ch datganiad polisi cyhoeddedig ac a all hefyd gynnal asesiad o effaith eich ymyriadau ar eich cynnig cymhwyster cyfrwng Cymraeg, gydag amlinelliad o sut y gwneir hyn,
- cofnodi'r trefniadau mewnol ar gyfer goruchwylio'r ffordd y mae trydydd partïon, lle bo'n berthnasol, yn eich galluogi i gydymffurfio â'r Amodau, a
- phrosesau a strwythurau mewnol a ddefnyddir i asesu a gwerthuso cydymffurfiaeth â'r Amodau a'r gofynion cysylltiedig.

2.54. Gallwch gydymffurfio â'r gofynion mewn un set o drefniadau goruchwylio. Nid oes angen i chi sicrhau bod gennych drefniadau goruchwylio ar wahân ar gyfer pob Amod a/neu ofyniad. Gallwch hefyd gynnwys y wybodaeth berthnasol sy'n cofnodi'r trefniadau hynny mewn un ddogfen.

3. Gwybodaeth, Dolenni ac Adnoddau defnyddiol

3.1. Yn yr adran hon, rydyn ni'n darparu gwybodaeth, dolenni ac adnoddau defnyddiol i'ch cefnogi wrth i chi sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael, wrth i chi gyhoeddi eich datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ac wrth i chi hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg, a hwyluso mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Canllawiau i Gyrff Dyfarnu ar ddatblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

3.2. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi pob corff dyfarnu sy'n cynnig, neu'n ystyried cynnig cymwysterau cyfrwng Cymraeg, p'un a ydych yn dechrau, yn ceisio cynyddu'r ddarpariaeth neu'n dymuno efelychu arfer da. Mae'r canllawiau'n eich tywys gam wrth gam drwy ddatblygu, dylunio, cyflwyno a dyfarnu cymhwyster ac mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer da a dolenni i adnoddau a chysylltiadau ychwanegol.

guidance-for-abs-on-wm-qualifications-cymraeg.pdf (cymwysterau.cymru)

Cynnig Cymraeg - Pecyn Adnoddau Cynnig Gweithredol

3.3. Comisiynwyd y pecyn adnoddau rhyngweithiol hwn gan Cymwysterau Cymru ac fe'i ddarparwyd gan IAITH: y ganolfan cynllunio iaith. Nod y pecyn hwn yw cefnogi pob corff dyfarnu cydnabyddedig i gyflwyno'r Cynnig Cymraeg, ac i wneud hynny yn rhagweithiol. Yn y pecyn hwn rydym yn cyfeirio at hyn fel y Cynnig Gweithredol.



https://cymwysterau.cymru/gwybodaeth-a-chefnogaeth/cyrff-dyfarnu-cyflogwyr-a-rhanddeiliaid/cymwysterau-cyfrwng-cymraeg/y-cynnig-cymraeg-y-cynnig-gweithredol/

Grant Cymorth i'r Gymraeg Cymwysterau Cymru

3.4. Rydyn ni'n cynnig grantiau i gyrff dyfarnu i helpu i gynnal a chynyddu argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Gall cyrff dyfarnu wneud cais i ni am gymorth ariannol i helpu gyda'r gost o fodloni'r galw am gymwysterau a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg.

Grantiau | Cymwysterau Cymru

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

3.5. Mae canolfan adnoddau 'Porth' y Coleg Cymraeg yn cynnwys nifer o adnoddau sy'n berthnasol i waith cyrff dyfarnu fel y canlynol:

3.6. Codi hyder i aseswyr - Pwrpas y cwrs hunan-astudio ar-lein hwn yw rhoi'r adnoddau a'r wybodaeth i aseswyr weithio'n hyderus yn ddwyieithog gyda'u Dysgwyr. Mae'r cwrs yn ddwyieithog, ond ei nod yw codi hyder aseswyr Cymraeg wrth iddynt ddarparu eu hyfforddiant yn Gymraeg.

3.7. Fideos Rhannu Arfer Dda – Mae'r fideos hyn yn dangos sut mae darparwyr addysg bellach a phrentisiaethau yn rhannu arfer da mewn addysgu, hyfforddiant ac asesu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg

3.8. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg nifer o swyddogaethau a phwerau rheoleiddio penodol, gan gynnwys gosod a gorfodi safonau'r Gymraeg a phenderfynu ar gwynion ac ymchwiliadau.

3.9. Wrth hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, mae'r Comisiynydd hefyd yn gweithio gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

3.10. Wrth gynorthwyo sefydliadau, mae amrywiaeth o ganllawiau defnyddiol wedi'u cyhoeddi.

https://www.welshlanguagecommissioner.wales/

Diwrnod Hawliau'r Gymraeg

3.11. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi sefydlu 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg' – diwrnod pan all pob sefydliad hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Fe'i cynhelir ar 7 Rhagfyr; y dyddiad y cafodd Mesur y Gymraeg ei basio gan y Senedd.

3.12. Mae'r Mesur yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg, ac yn sefydlu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Arweiniodd hyn at sefydlu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau.

3.13. Cynhyrchwyd pecyn o adnoddau y gall sefydliadau eu defnyddio i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg mewn ffordd glir a syml.

3.14. Os hoffech gael copi o'r pecyn, gellir gwneud cais amdano drwy e-bostio post@cyg-wlc.cymru.

Cynlluniau Iaith Gymraeg

3.15. Mae Cynlluniau Iaith Gymraeg yn gynlluniau sy'n amlinellu sut ac ym mha ffyrdd y mae corff yn bwriadu defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

3.16. Mae yna wahanol lwybrau ac arweiniad ar gyfer datblygu Cynllun Iaith Gymraeg:

i. Efallai y byddwch chi, neu Ganolfannau rydych chi'n gweithio gyda nhw, yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg sy'n ymdrin â meysydd fel darparu gwasanaethau, llunio polisïau a hyrwyddo.

ii. Efallai y byddwch chi, neu Ganolfannau rydych chi'n gweithio gyda nhw, yn ddarostyngedig i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac felly bydd gofyn i chi baratoi Cynllun Iaith Gymraeg.

iii. Efallai y byddwch chi, neu'r Canolfannau rydych chi'n gweithio gyda nhw, yn dewis datblygu cynllun Iaith Gymraeg o'ch gwirfodd, neu ddod yn rhan o'u cynllun Cynnig Cymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun Cynnig Cymraeg ar gael isod.

Cynllun Cynnig Cymraeg

3.17. Datblygwyd cynllun Cynnig Cymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gwybod pa wasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt.

3.18. Bwriad y cynllun yw rhoi cynllun clir i sefydliadau ei ddilyn, i gynnal a datblygu eu gwasanaethau Cymraeg dros amser (Cynllun Datblygu'r Gymraeg). Mae hefyd yn dangos ymrwymiad sefydliad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr.

3.19. Cynllun tymor hir sefydliad ar gyfer datblygu eich darpariaeth Gymraeg yw Cynllun Datblygu'r Gymraeg. Gyda chefnogaeth y Comisiynydd, byddwch yn gallu cyflwyno eich Cynnig Cymraeg i sicrhau cydnabyddiaeth swyddogol. Byddwch wedyn yn gallu defnyddio'r logo unigryw.

3.20. Mae dau ddeg naw o fusnesau yng Nghymru wedi derbyn y statws ers sefydlu'r cynllun ym mis Mehefin 2020. Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio gyda dros gant o sefydliadau eraill i ddatblygu eu cynlluniau.

3.21. Bydd Tîm Hybu y Comisiynydd yno i'ch cefnogi wrth i chi:

- weithio i gynhyrchu eich cynllun datblygu a'ch Cynnig Cymraeg;
- cyflwyno am gydnabyddiaeth swyddogol a'r hawl i ddefnyddio logo Cynnig Cymraeg;
- rhannu yn fewnol ac yn allanol, hyrwyddo, dathlu a mesur yr effaith.

3.22. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn cydnabyddiaeth swyddogol gan Gomisiynydd y Gymraeg, cysylltwch â hybu@cyg-wlc.cymru.

3.23. Os oes eisoes gennych chi Gynllun Iaith Gymraeg ar waith, yn statudol neu'n wirfoddol, nid oes angen i chi gyflwyno cynllun Cynnig Cymraeg.

Atodiad A – Templedi Enghreifftiol: Datganiadau Polisi

Datganiad Polisi 1 – Cynnig cymhwyster cwbl ddwyieithog

Rydyn ni'n deall bod gan y Gymraeg le pwysig yn niwylliant Cymru, ac mae'n bwysig darparu cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at adnoddau a chymwysterau addysgol yn eu dewis iaith. Felly, rydyn ni wedi ymrwymo i gynnig pob cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trwy gynnig cymwysterau ac adnoddau yn y Gymraeg, ein nod yw cefnogi a grymuso dysgwyr Cymraeg, hyrwyddo cynwysoldeb a gwella eu profiad dysgu.

Er mwyn sicrhau bod cymwysterau ac adnoddau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn:

1. Gweithio gyda chanolfannau a Cymwysterau Cymru i ddatblygu a chynnal fersiynau Cymraeg o'n cymwysterau a'n hadnoddau.
2. Dyrannu adnoddau a buddsoddi mewn cyfieithu asesiadau, deunyddiau ac adnoddau ategol i'r Gymraeg, gan sicrhau cywirdeb ieithyddol a sensitifrwydd diwylliannol.
3. Hwyluso cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol i addysgwyr ac aseswyr, gan eu galluogi i ddarparu cymwysterau'n effeithiol yn y Gymraeg a darparu cymorth iaith priodol i ddysgwyr.
4. Adolygu a diweddaru'r datganiad polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau bod ein darpariaeth cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn cyd-fynd â datblygiadau polisi a deddfwriaethol yng Nghymru, yn ogystal ag anghenion datblygol dysgwyr Cymraeg.
5. Casglu adborth ac ymgysylltu â chanolfannau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i sicrhau gwelliant parhaus a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu awgrymiadau sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau rydyn ni'n eu darparu yn Gymraeg.
6. Cyfleu ein sefyllfa bolisi ar argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg i ganolfannau.
7. Cydymffurfio ag Amodau Cydnabod a nodir gan Gymwysterau Cymru mewn perthynas â chymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Trwy ein hymrwymiad i'r polisi hwn, ein nod yw cyfrannu at dirwedd addysgol fwy cynhwysol a chyfiawn.

Am wybodaeth fanylach am gymwysterau cyfrwng Cymraeg a'r adnoddau ategol rydyn ni'n eu darparu ar hyn o bryd, ewch i'n gwefan: ourorganisation.wales

Cymraeg

Datganiad Polisi 2 – Cynnig cymhwyster cyfrwng Cymraeg rhannol

Mae ein sefydliad yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol a hyrwyddo diwylliant Cymru. Rydyn ni'n ymdrechu i ddarparu cyfle cyfartal i unigolion y mae'n well ganddynt ddilyn eu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er ein bod ni'n anelu at fodloni dewisiadau ieithyddol ein dysgwyr, rydyn ni'n cydnabod efallai na fydd yn ymarferol cynnig pob cymhwyster yn y Gymraeg.

Mae ein polisi ynghylch ein cynnig cymhwyster cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

1. Darpariaeth Gymraeg
Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnig amrywiaeth o gymwysterau ac unedau drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi siaradwyr Cymraeg a chyfrannu at warchod y Gymraeg.

2. Argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg
Byddwn ni'n ymdrechu i ddarparu opsiynau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymaint o gymwysterau â phosibl, gan ystyried ffactorau megis galw, adnoddau a dichonoldeb. Ar gyfer yr holl gymwysterau neu unedau rydyn ni'n eu darparu yn Gymraeg, bydd yr asesiadau a'r deunyddiau priodol yn Gymraeg. Byddwn ni'n adolygu ein cynnig cymhwyster cyfrwng Cymraeg yn rheolaidd i nodi cyfleoedd i ehangu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yn y Gymraeg.

3. Cymwysterau wedi'u targedu
Byddwn ni'n blaenoriaethu cynnig cymwysterau cyfrwng Cymraeg mewn pynciau lle nodir galw a dichonolrwydd. Byddwn ni'n ystyried anghenion dysgwyr ac ysgolion a cholegau yn ogystal â chymwysterau sy'n cael eu hystyried fel meysydd blaenoriaeth yng Nghymru.

4. Dyraniad adnoddau
Byddwn ni'n dyrannu adnoddau priodol, gan gynnwys staff, deunyddiau a seilwaith cymwys, i gefnogi'r gwaith o ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, gyda'r nod o ddarparu profiad dysgu o ansawdd uchel i ddysgwyr sy'n dilyn cymwysterau yn y Gymraeg.

5. Ymgysylltu â chanolfannau
Byddwn ni'n ymgysylltu'n weithredol â chanolfannau i ofyn am adborth a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori, cyfathrebu a chydweithio'n rheolaidd i wella ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y cymwysterau a gynigir.

6. Adolygu a gwella
Byddwn ni'n adolygu ein polisi ar argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn flynyddol. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn cael ei lywio gan ein gwaith rhyngweithio â chanolfannau i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i berthnasedd. Bydd adborth gan ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid yn werthfawr wrth lunio ein dull gweithredu ac wrth nodi meysydd i'w datblygu.

Cliciwch **yma** i gael y datganiad polisi hwn yn Gymraeg, neu i gael **gwybodaeth fanylach** ar gymwysterau a/neu unedau sydd ar gael yn Gymraeg a'r adnoddau i gefnogi cyrhaeddiad y cymwysterau hyn.

Datganiad Polisi 3 – Cynnig cymhwyster uniaith Saesneg

Mae ein sefydliad yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol a chynwysoldeb diwylliannol. Fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd addysgol, ein nod yw diwallu anghenion ieithyddol ein dysgwyr hyd eithaf ein gallu. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ac ystyriaethau penodol, rydyn ni wedi gwneud y penderfyniad i **beidio â chynnig cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** ar hyn o bryd.

Mae'r penderfyniad i beidio â chynnig cymwysterau yn Gymraeg yn seiliedig ar y ffactorau canlynol:

1. Argaeledd adnoddau

Mae datblygu a chyflwyno cymwysterau trwy sawl cyfrwng yn gofyn am adnoddau sylweddol, gan gynnwys personél cymwys, datblygu'r cwricwlwm, a deunyddiau asesu. O ystyried ein cyfyngiadau presennol o ran adnoddau, rydyn ni wedi blaenoriaethu cynnig cymwysterau mewn ieithoedd sydd â galw uwch a hygyrchedd ehangach.

2. Galw yn y farchnad

Er ein bod ni'n cydnabod pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg, gall y galw am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg amrywio ar draws gwahanol ranbarthau a sectorau. Mae ein penderfyniad hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y galw gan gyflogwyr, ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch, a rhanddeiliaid eraill, sy'n helpu i arwain ein cynnig cymhwyster.

3. Alinio ag Amodau a Gofynion Rheoleiddiedig

Mae rheoliadau a gyhoeddir mewn perthynas â'r cymwysterau a gynigiwn yn aml yn cynnwys gofynion a safonau penodol wedi'u gosod y tu allan i Gymru. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen llunio mesurau cymeradwyo a chydymffurfiaeth ychwanegol wrth gynnig cymwysterau yn y Gymraeg, sy'n arwain heriau ymarferol ar hyn o bryd.

Byddwn ni'n adolygu'r polisi hwn o bryd i'w gilydd i asesu ein gallu a gwerthuso anghenion a gofynion newidiol dysgwyr.

Rydyn ni'n croesawu adborth a mewnbwn gan yr holl randdeiliaid, gan gynnwys canolfannau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog rydyn ni'n gweithio gyda nhw, wrth i ni ymdrechu i wella ein cynnig cymhwyster yn barhaus.

Atodiad B – Templed Enghreifftiol: Holiadur Rhyngweithio Canolfan

Holiadur Rhyngweithio Canolfan	
Codi ymwybyddiaeth o gymwysterau cyfrwng Cymraeg	
C1	Pa mor fodlon ydych chi â'r wybodaeth rydyn ni'n ei darparu ar hyn o bryd i hyrwyddo cymwysterau cyfrwng Cymraeg?
C2	Pa mor fodlon ydych chi â'r ffordd rydyn ni'n eich gwneud yn ymwybodol o gymwysterau cyfrwng Cymraeg?
C3	Sut y gallem gyfleu gwybodaeth i chi yn well am argaeledd cymwysterau ac unedau cyfrwng Cymraeg?
C4	Sut y gallem eich cefnogi i hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn well i ddysgwyr presennol a darpar ddysgwyr?
Adnabod a chefnogi deunyddiau sy'n ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg	
C5	Pa mor fodlon ydych chi â'r ystod o adnoddau a deunyddiau ategol rydyn ni'n eu darparu ar hyn o bryd sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau cyfrwng Cymraeg rydych chi'n eu cynnig?
C6	A oes unrhyw adnoddau eraill a deunyddiau ategol y byddech yn disgwyl i ni eu darparu? Os felly, beth fyddai'r rhain, ac ar gyfer pa gymwysterau?
Asesu'r galw am gymwysterau yn Gymraeg,	
C7	Fel canolfan, ydych chi'n gofyn am ddewis iaith eich dysgwyr? Os felly, sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi?
C8	A oes unrhyw gymwysterau yr hoffech eu cynnig nad ydynt ar gael gennym ni yn Gymraeg ar hyn o bryd? Os felly, rhowch fanylion am bynciau a lefelau'r cymwysterau hyn.
Nodi cyfleoedd i wella mynediad at gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg	
C9	Ydych chi wedi wynebu unrhyw rwystrau neu heriau wrth gael mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog?
C10	Pa gamau, os o gwbl, y gallem eu cymryd i wella mynediad i annog mwy o'ch dysgwyr i ddilyn ein cymwysterau neu unedau drwy gyfrwng y Gymraeg?
C11	Pa fath o gymorth fyddai fwyaf defnyddiol i'ch canolfan i gynyddu'r ystod o gymwysterau rydych chi'n eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?
Blaenoriaethu cymwysterau i'w hyrwyddo neu gynulleidfaoedd i'w targedu	
C12	A oes unrhyw gymwysterau penodol yr hoffech i ni eu blaenoriaethu i'w hyrwyddo gyda'ch cynulleidfaoedd? Os felly, rhowch fanylion am bynciau a lefelau'r cymwysterau hyn
C13	A oes unrhyw gynulleidfaoedd penodol yr hoffech i ni eu targedu?
Cymorth Ychwanegol	
C14	A oes unrhyw agweddau eraill ar ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg y mae angen cymorth arnoch â nhw?